



Older People's Commissioner for Wales  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

---

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Adroddiad Blynyddol 2015-16

---

Llais ac eiriolwr annibynnol  
ar gyfer pobl hŷn

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL

Ffôn: 029 20 44 5030

E-bost: [gofyn@olderpeoplewales.com](mailto:gofyn@olderpeoplewales.com)

Gwefan: [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)

Trydar: [@comisiwnphcymru](https://www.instagram.com/comisiwnphcymru)

## Fformatau Hygyrch

Of hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

# Contents

<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>2. Crynodeb o'r gofynion a phatrwm yr adroddiad</b>	<b>3</b>
<b>3. Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru</b>	<b>4</b>
<b>5. Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd</b>	<b>20</b>
<b>6. Yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2015-16</b>	<b>23</b>
<b>Atodiad A: Proffiliau'r gweithlu ar 31/03/16</b>	<b>33</b>
<b>    Gwybodaeth cyfrif pennau</b>	<b>33</b>
<b>    Recriwtio</b>	<b>36</b>
<b>    Dysgu a Datblygu</b>	<b>39</b>
<b>    Trefniadau Cwyno</b>	<b>40</b>
<b>    Trefniadau Disgyblu</b>	<b>40</b>
<b>    Ymadawyr</b>	<b>40</b>
<b>Atodiad B: Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2016-17</b>	<b>42</b>
<b>Atodiad C: Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn</b>	<b>49</b>

# 1. Cyflwyniad

Fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, rwyf yn eiriolwr a llais annibynnol dros bobl hŷn sy'n 60 mlwydd oed a mwy, fel y'u diffinnir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Yn sail i'm gwaith mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ac mae hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn hanfodol i'm rôl statudol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau a gymerais yn ystod 2015-16 i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb statudol a amlinellir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Eglurir sut y byddaf yn sicrhau bod fy nhîm a minnau, wrth fwrw ymlaen â'n gwaith, yn ymgysylltu â phobl hŷn, yn eu deall ac yn eu cynnwys, yn eu holl amrywiaeth.

Nid un grŵp unffurf yw pobl hŷn. Maent yn cynrychioli holl amrywiaeth Cymru – yr amrywiaeth hwn yw ein hanfod fel cenedl ac mae i'w ddathlu. Rwy'n falch o fod yn Gomisiynydd dros BAWB o'n pobl hŷn a daliaf i weithio i hyrwyddo cydraddoldeb a gwarchod yr hawl i fyw bywydau ac iddynt werth, ystyr a phwrpas.



**Sarah Rochira**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

## 2. Crynodeb o'r gofynion a phatrwm yr adroddiad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn awdurdod rhestredig dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a rhaid iddi lynu at y ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cydraddoldeb a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Ymhlith y gofynion eraill o ran llunio adroddiadau roedd y gofyn am gyhoeddi, erbyn mis Ebrill 2012, Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ymgorffori amcanion penodol, ac wedyn gyhoeddi adroddiad blynyddol ar yr hyn a gyflawnwyd. Rhaid cyhoeddi'r pumed adroddiad blynyddol hwn erbyn 31 Mawrth 2017 fan bellaf.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y dyletswyddau penodol i Gymru ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd:

- Mae Adran 3 yn egluro rôl y Comisiynydd
- Mae Adran 4 yn nodi'r modd y mae Dyletswydd Gyffredinol y Sector Cyhoeddus yn berthnasol i fusnes craidd y Comisiynydd
- Mae Adran 5 yn amlinellu Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd
- Mae Adran 6 yn amlinellu'r hyn a gyflawnwyd i wireddu'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol gan ymgorffori'r dyletswyddau cyffredinol
- Atodiad A – Proffiliau'r gweithlu ar 31 Mawrth 2016
- Atodiad B – Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2016-17
- Atodiad C – Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Gellir gweld copïau o Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd ac adroddiadau blynyddol y gorffennol ar [wefan](#) y Comisiynydd.

## 3. Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Corfforaeth Undyn yw'r Comisiynydd a grëwyd dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'n endid cyfreithiol annibynnol yn ei hawl ei hun ac yn awdurdod rhestredig i ddibenion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn amlinellu nifer o ddyletswyddau statudol i'r Comisiynydd.

### 1. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny.

Defnyddia'r Comisiynydd ei statws i helpu gosod yr agenda ymysg pobl sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel ynghylch materion sy'n effeithio ar bobl hŷn, gan hyrwyddo trafodaeth gyhoeddus drwy'r cyfryngau.

Rôl allweddol i'r Comisiynydd yw bod yn eiriolwr grymus dros bobl hŷn, gan arwain ac ymyrryd mewn ystod eang a chynyddol o ddadleuon a phrosesau penderfynu ledled Cymru.

### 2. Hyrwyddo darpariaeth cyfleon i bobl hŷn yng Nghymru, a sicrhau nad oes gwahaniaethu yn eu herbyn.

Hyrwydda'r Comisiynydd newidiadau i'r gyfraith, canllawiau ac arferion er mwyn dileu anghydraddoldeb. Cyflwyna ddelweddau realistig a chadarnhaol o bobl hŷn, gan gydnabod pobl hŷn yn eu holl amrywiaeth.

Unigolion yw pobl hŷn, ac er bod ganddynt rai pryderon cyffredin, nid yw hynny'n lleihau eu statws fel unigolion. Ni ddylai fod un farn gyffredin am bobl hŷn, a cheisia'r Comisiynydd adlewyrchu hyn yn ei gwaith.

Hyrwydda'r Comisiynydd ddealltwriaeth o natur gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yn ei ffurfiau mwyaf amlwg a'i ffurfiau mwy cuddiedig – ond llawn mor niweidiol – ac mae o'r farn fod mynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu mewn modd effeithiol yn gam allweddol er mwyn symud ymlaen ar draws pob maes polisi, nid iechyd a gofal cymdeithasol yn unig.

### 3. Annog yr arfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.

Ceisio'r Comisiynydd gyflawni hyn drwy sawl dull, gan gynnwys dod â phobl a thystiolaeth at ei gilydd a, lle bo angen, cyflawni gwaith ymchwil, er mwyn arddangos yr arfer gorau.

Yn bwysicaf oll, bydd yn pwysu dros ddarparu gwasanaethau rhagorol i bobl hŷn mewn modd eang a chyson. Bydd yn annog pobl i newid arferion sydd wedi hen ymsefydlu lle dangoswyd bod dulliau eraill yn gweithio'n well. Bydd yn annog darparwyr gwasanaethau i wynebu'r her o newid er mwyn gallu ateb anghenion

pobl hŷn yn well, e.e. rhoi cefnogaeth gynnar i bobl hŷn er mwyn eu harbed rhag mynd yn fwy dibynnol yn ddiweddarach.

#### **4. Parhau i adolygu digonoldeb ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.**

Adeilada'r Comisiynydd yr achos dros newid a chyflwynna'r achos hwn i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Sefydla beth yw'r problemau a'r cyfleon drwy ddod ag arbenigwyr cyfreithiol ac eraill at ei gilydd a manteisio ar brofiad a barn pobl hŷn.

Mae'r gyfraith yn rhan hollbwysig o sicrhau grym a gwarchodaeth i bobl hŷn ac o sicrhau unioni cam, ac eto mae'n aml yn gymhleth, yn ddryslyd, yn anodd manteisio arni ac angen ei diwygio. Mae'r Comisiynydd eisoes wedi chwarae rôl gryf wrth argymhell newidiadau a fydd o fudd i bobl hŷn ac eraill.

Isod wele enghreifftiau o'r mathau o weithgaredd y mae'r Comisiynydd wedi ymwneud â nhw:

- Rhoi arweiniad ar y materion sy'n bwysig i bobl hŷn
- Codi proffil pobl hŷn o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Pwyso ar Lywodraeth Cymru
- Adolygu'r modd y bydd cyrff datganoledig yn cyflawni eu gwaith
- Cyhoeddi canllawiau a safonau
- Cynorthwyo unigolion i wneud cwynion neu sylwadau
- Comisiynu ymchwil neu helpu eraill i wneud hynny
- Cyflawni, comisiynu neu gynorthwyo eraill gyda gweithgareddau addysgol
- Cynnal archwiliadau (ymchwiliadau)
- Cyhoeddi canllawiau anstatudol
- Siarad dros newid deddfwriaeth, canllawiau ac arferion
- Siarad yn gyhoeddus am fethiannau mewn gwasanaethau
- Hyrwyddo ymarfer da

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Comisiynydd yn darparu gwasanaethau rheng flaen ac eithrio trwy gyngor a chymorth uniongyrchol a ddarperir i bobl hŷn trwy ein gwaith achosion a'r gwaith a arweinir gan y tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cynnal digwyddiadau a chynhyrchu cyhoeddiadau. Mae a wnelo'r rhan fwyaf o waith y Comisiynydd â chydweithio ag eraill i sicrhau newidiadau mewn polisiau ac arferion.

Amlinellir gwaith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gyfer y presennol a'r dyfodol yn ei '[Fframwaith Gweithredu 2013-17](#)'.

## 4. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

### 4.1. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Dyma 3 nod y ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a phob ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf Gydraddoldeb.
2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sydd yn rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl sydd hebddi.
3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl sydd hebddi.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymdrin â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- Oed
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl
- Anabledd
- Trawsrywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiria at briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond yn nghyswllt yr angen i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

I ddibenion y Ddeddf Gydraddoldeb, nid yw iaith (gan gynnwys y Gymraeg) yn nodwedd warchoddedig. Ond mae'r Comisiynydd o'r farn fod angen ieithyddol yn gydradd â nodweddion eraill. Mae Ddeddf yr Iaith Gymraeg yn berthnasol i'r Comisiynydd ac mae ganddi [Gynllun Iaith](#). Dywed Cynllun Iaith y Comisiynydd y byddwn yn darparu adroddiadau monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar ben blwydd cymeradwyo'r Cynllun. Eleni, mae'r Comisiynydd wedi parhau i gymryd rhan yn yr ail gylch o ymchwiliadau i safonau Comisiynydd y Gymraeg. O ganlyniad i hynny, ac oherwydd amseriad yr ymchwiliadau hynny, nid oedd angen i ni gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol eleni. Yng Ngorffennaf 2016, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cadarnhau pa safonau y bydd angen i ni gydymffurfio â hwy.

Trwy ei gwaith, bydd y Comisiynydd hefyd yn ystyried y modd y mae tlodi a byw mewn ardaloedd gwledig yn effeithio ar fynediad cydradd at wasanaethau.



## 4.2. Busnes Craidd

Fel corff sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae gan y Comisiynydd a'i staff amrediad o swyddogaethau statudol a chyfrifoldebau gweinyddol eraill, gan gynnwys:

- Hyrwyddo buddiannau pobl hŷn, gan gynnwys herio gwahaniaethu, annog arferion gorau ac adolygu'r gyfraith.
- Sicrhau bod pobl hŷn ledled Cymru'n gwybod am y swydd.
- Recriwtio, cyflogi, hyfforddi a rheoli staff.
- Caffael gwasanaethau, gan gynnwys tendro am nwyddau a gwasanaethau fel ymchwil.
- Gwobrwyo, cydnabod a thalu i staff.
- Rhoi cymorth i bobl hŷn a hoffai wneud cwyn neu gais gerbron cyrff cyhoeddus neu ddarparwyr gwasanaethau eraill.

## 4.3. Amddiffyn a Chraffu

### 4.3.1. Gwaith Achos

Mae'r Comisiynydd yn darparu cymorth uniongyrchol i unigolion drwy gyfrwng ei Thîm Gwaith Achos, a hynny dros y ffôn gan amlaf, ond bydd hefyd yn gwneud hynny drwy e-bost, llythyr ac, mewn rhai achosion, cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Yn 2015-16, darparodd y Comisiynydd gymorth a chefnogaeth i 413 o bobl hŷn, yn unol â'r pwerau a nodir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Mae pob ymholiad a ddaw gan unigolion i'r Comisiynydd yn cael ei reoli drwy gyfrwng System Rheoli Busnes (BMS), y cofnodir ynddi oedran, rhyw, a dewis iaith y sawl sy'n galw. Gofynnir hefyd i'r rhai sy'n galw a oes ganddynt unrhyw anghenion ychwanegol – fel nam ar y synhwyrâu – er mwyn sicrhau ein bod yn gallu diwallu eu hanghenion yn briodol a sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal at ein gwasanaethau.

Mae'r broses awtomatig o fonitro amrywiaeth y rhai sy'n galw yn ymwneud ag oedran, rhyw, anghenion cyfathrebu ac anghenion hygyrchedd yn unig, gan adlewyrchu'r ffaith bod mwyafrif y rhai sy'n galw yn cysylltu â ni mewn cyfnod o argyfwng yn eu bywyd, pan fônt yn aml yn bryderus ac mewn gofid, pan allai gofyn cwestiynau ychwanegol neu broses orfodol o fonitro nodweddion gwarchoddedig greu rhwystr rhwng y sawl sy'n galw a'r gweithiwr achos.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu asesu'r graddau yr ydym yn diwallu anghenion grŵp cynrychiadol o bobl hŷn, gofynnir i'r rhai sy'n cael cymorth gwaith achos lenwi ffurflen gydraddoldebau a'i dychwelyd ynghyd â ffurflen gydsynio, sy'n rhoi caniatâd i'r Comisiynydd weithredu ar ran unigolyn.

Caiff y wybodaeth hon ei choladu wedi hynny a'i defnyddio i ganfod a oes unrhyw fylchau posibl yn ein gallu i gynnwys grwpiau o bobl hŷn neu yn safon y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu.

Y pum mater mwyaf cyffredin y cysylltwyd â ni amdanynt yn ystod 2015-16 oedd: Gofal (8.9%), Gofal Preswyl (8.5%), Tai (8.5%), Materion Ariannol (6.5%) ac Iechyd (6.5%). Roedd llawer o'r achosion y bu'r Tîm Gwaith Achos yn ymdrin â nhw yn hynod gymhleth ac yn cynnwys ymdrin â nifer o asiantaethau i ddatrys ystod eang o faterion ar ran pobl hŷn, sydd yn aml mewn sefyllfaoedd o fod yn agored iawn i niwed.

#### 4.3.2. Diogelu ac Amddiffyn Pobl Hŷn

Parhaodd ystod eang o waith yn 2015-16 i godi ymwybyddiaeth o raddau a natur y gamdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei hwynebu a'r amgylchiadau sy'n gallu peri bod pobl hŷn yn arbennig o ddi-amddiffyn neu mewn perygl o gael eu niweidio.

Mae'r gwaith yn y maes hwn wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar sicrhau bod dull systemig o ganfod y bobl hŷn hynny sydd mewn perygl o gael eu niweidio a sicrhau bod y rhai sy'n cael eu cam-drin yn cael cefnogaeth lawn y system cyfiawnder troseddol ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i adennill eu diogelwch a'u lles.

#### 4.3.3. Seminarau a Chyflwyniadau Codi Ymwybyddiaeth

Cynhaliwyd tair seminar yn 2015-16 – ym Maglan, yn Aberhonddu ac yn Llanrwst – i godi ymwybyddiaeth o'r gamdriniaeth ddomestig a wynebier gan bobl hŷn. Roedd y pynciau yr oedd y seminarau'n eu cwmpasu yn cynnwys graddau'r gamdriniaeth a ddiodefir gan bobl hŷn yng Nghymru, y cysylltiadau rhwng oedraniaeth a chamdriniaeth, hawliau dynol, camdriniaeth ddomestig mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, rôl hollbwysig eiriolaeth a'r cymorth sydd ar gael i ddiodefwr camdriniaeth ddomestig.

Daeth dros 300 o weithwyr proffesiynol y rheng flaen sydd â chyswllt uniongyrchol â phobl hŷn i'r seminarau, a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan arbenigwyr sy'n gweithio ym maes amddiffyn oedolion ac a oedd yn gyfle i rannu ystod eang o arferion da. Roedd mwyafrif llethol y sylwadau am y seminarau yn gadarnhaol, ac mae rhagor o seminarau wedi'u cynllunio i'w cynnal yn 2016-17 er mwyn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg mwy o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl hŷn ledled Cymru.

Cafodd cyflwyniadau codi ymwybyddiaeth, a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod cam-drin pobl hŷn yn broblem allweddol, ac a nododd yr hyn y gellid ei weithredu i wella bywydau pobl hŷn y mae camdriniaeth yn effeithio arnynt, hefyd eu darparu i'r rhanddeiliaid a ganlyn yn ystod 2015-16:

- Pob Bwrdd Diogelu yng Nghymru
- Fforymau Camdriniaeth Ddomestig

- Cyfarwyddwyr Byrddau Iechyd
- Staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Staff yn Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
- Gweithwyr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl (fel rhan o'u cwrs gradd)
- Ynadon yn Hwlfordd
- Cynhadledd Diogelu gan Capita, Caerdydd
- Cynhadledd SafeLives, Llundain
- Cynhadledd Bwrdd Diogelu Gwent, Casnewydd
- Cynhadledd Age Cymru Gwent, Casnewydd
- Rhwydwaith Fforymau 50+ De Cymru
- Fforwm Access 4 All
- Grŵp 50+ y Fenni ynghylch camdriniaeth a ddioddefir gan bobl hŷn

#### **4.3.4. Trechu anghydraddoldeb yn y system cyfiawnder troseddol**

Ar Ddiwrnod Ymwybyddiaeth o Gam-drin Pobl Hŷn y Byd (15 Mehefin), galwodd y Comisiynydd am i'r gyfraith gael ei newid er mwyn iddi fod yn haws erlyn y rhai sy'n cam-drin pobl hŷn neu sy'n eu hesgeuluso, neu'r rhai sy'n gadael i gamdriniaeth neu esgeuluso ddigwydd, fel rheolwyr a darparwyr gofal iechyd a chymdeithasol.

Mynegodd y Comisiynydd yn glir nad yw'r gyfraith bresennol yn amddiffyn yn ddigonol y bobl hŷn hynny sy'n dioddef gofal nad yw'n cyrraedd y safon, camdriniaeth, neu esgeulustod, ac nad yw'n darparu dull addas o atal y rhai sy'n darparu gofal nad yw'n cyrraedd y safon neu sy'n cam-drin neu'n esgeuluso pobl hŷn rhag gwneud hynny.

Ar ben hynny, mynegodd y Comisiynydd bryderon difrifol fod nifer yr euogfarnau am droseddau yn erbyn pobl hŷn yn is i raddau anghymesur nag yn achos y boblogaeth yn ei chyfanrwydd, gan mai dim ond oddeutu 1% o'r troseddau a gofnodir yn erbyn pobl hŷn sy'n arwain at euogfarnau (yn achos holl droseddau'r DU, tua 19% yw'r ffigur). Mae hyn yn awgrymu nad yw'r prawf tystiolaethol a ddefnyddir ar hyn o bryd yn addas i'r diben, fod diffyg parodrwydd i erlyn am droseddau yn erbyn pobl hŷn, neu nad yw'r gyfraith ei hun yn ddigonol.

Ysgrifennodd y Comisiynydd at yr Ysgrifennydd Cyfiawnder a Chyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i amlinellu ei phryderon ac mae wrthi'n gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith i ganfod meysydd penodol y mae'r gyfraith bresennol yn ddiffygiol ynddynt. Ynghyd â chyflwyno'i chanfyddiadau i Lywodraeth y DU a Gwasanaeth Erlyn y Goron, bydd hefyd yn mynegi'n glir ei disgwyliad bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb clir a geir yn ein system cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau nad yw oedran person yn ffactor sy'n pennu a yw'r gyfraith yn darparu cymorth ac amddiffyniad iddo neu beidio.

#### 4.3.5. Partneriaeth Cymru yn erbyn Sgamiau

Mae sgamiau'n cael effaith enbyd a pharhaus ar fywyd pobl hŷn, nid yn unig drwy gymryd eu harian a'u cynilion oddi arnynt ond drwy effeithio ar eu hyder a'u hurddas. Mae'n hollbwysig cydnabod beth yw sgamiau mewn gwirionedd – sef achosion o ddwyn a dichellion troseddol sy'n ymwneud yn aml â chamfanteisio ar yr unigolion sydd ymysg y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Dyna pam y bu inni weithio gydag Age Cymru drwy gydol 2015-16 i sefydlu'n ffurfiol Bartneriaeth Cymru yn erbyn Sgamiau, a lansiwyd ym mis Mawrth 2016 ac sy'n cael ei chadeirio ar y cyd gan y Comisiynydd ac Ian Thomas, Prif Weithredwr Age Cymru.

Mae'r Bartneriaeth yn dod ag ystod eang o bartneriaid at ei gilydd – gan gynnwys Safonau Masnach, Get Safe Online, Heddluoedd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, banciau a chwmnïau cyfleustodau – a fydd yn cydweithio i amddiffyn pobl yn well rhag sgamiau a sicrhau bod Cymru yn lle gelyniaethus i'r troseddwr sy'n eu gweithredu.

Ym mis Mawrth 2016, lansiodd y Bartneriaeth ei Chynllun Gweithredu, sy'n nodi'n fanwl y gwaith y bydd partneriaid yn ei wneud i fynd i'r afael â sgamiau ledled Cymru ac i amddiffyn pobl hŷn yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r camau a nodir yn y Cynllun Gweithredu wedi'u grwpio o dan benawdau ehangach sy'n sail i Siarter y Bartneriaeth, sef cyfres o ymrwymadau y gwnaeth pob partner ymrwymo iddynt a chytuno i'w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth a dileu'r stigma sy'n gysylltiedig â sgamiau
- Atal ac amddiffyn
- Adnabod a chofnodi
- Gorfodi, mynediad at gyfiawnder ac adfer

Lansiwyd y Cynllun Gweithredu a'r Siarter yng nghynhadledd sgamiau Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol a'r Cynghrair Grymuso Defnyddwyr, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ac y bu cynrychiolwyr o bob rhan o'r DU yn bresennol ynddi. Darparodd y gynhadledd gyfle rhagorol i rannu gwybodaeth â chynulleidfa genedlaethol am y gwaith sy'n cael ei wneud eisoes yng Nghymru i fynd i'r afael â sgamiau, a'r ystod eang o waith sydd wedi'i gynllunio.

#### 4.3.6. Canllawiau i atwrneiaethau arhosol

Gan weithio mewn partneriaeth â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, sy'n amddiffyn pobl nad ydynt efallai â'r gallu meddyliol i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain, lluniodd y Comisiynydd y 'Canllawiau hwylus ar atwrneiaeth arhosol', a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016.

Datblygwyd y canllawiau i helpu pobl i ddeall pwysigrwydd cael atwrneiaeth arhosol er mwyn rheoli eu materion ariannol, eu hiechyd, a'u lles, ac maent yn darparu gwybodaeth glir a hygyrch ynglŷn â sut i gofrestru atwrneiaeth arhosol.

Mae'r canllawiau hefyd yn darparu atebion i gwestiynau a ofynnir yn aml am atwrneiaethau arhosol, gan helpu i sicrhau bod penderfyniadau'r dyfodol yn cael eu diogelu.

Ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi, maent wedi'u dosbarthu'n eang ar ffurf copi caled, a hynny drwy ein swyddfa ni a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, ac maent wedi'u lawrlwytho mwy na 1,000 o weithiau. Mae'r canllawiau hefyd ar gael ar wefan y Sefydliad er Rhagoriaeth mewn Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl hŷn yn deall yn llwyr y manteision sy'n gysylltiedig ag atwrneiaeth arhosol a'r hyn y mae proses yr atwrneiaeth arhosol yn ei gynnwys.

#### **4.3.7. Gwybodaeth a chanllawiau ynghylch camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol**

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Thîm Trais yn erbyn Menywod, Camdrin Ddomestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru i ddatblygu gwybodaeth a chanllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol y rheng flaen ynghylch camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. Mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth am raddau'r gamdriniaeth a ddiodefir gan bobl hŷn a'i nodweddion cyffredin ynghyd â'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ymateb pan fo person hŷn yn cael ei gamdrin. Maent hefyd yn darparu manylion am y ddeddfwriaeth y gellid ei defnyddio i ddiogelu person hŷn neu i sicrhau erlyniad ar ran rhywun.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, a roddodd gyfle i unigolion a rhanddeiliaid gyflwyno sylwadau am eu cynnwys, rhoddir y wedd derfynol ar y canllawiau ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cyhoeddi yn ystod yr Haf yn 2016.

#### **4.3.8. Gwaith ychwanegol ar ddiogelu ac amddiffyn**

Yn ychwanegol at y gwaith a nodir uchod, mae'r Comisiynydd wedi ymgymryd ag ystod eang o waith arall sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn pobl hŷn yng Nghymru:

- Mae wedi argraffu a dosbarthu mwy o gopiâu o daflen wybodaeth 'Camdrin domestig a thrais rhywiol: Cymorth a Chefnogaeth i Bobl Hŷn yng Nghymru', a gyhoeddwyd gyntaf y llynedd. O ganlyniad i waith ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymgysylltu â meddygon teulu, mae nifer o bractisiau meddygon teulu wedi gwneud cais am gopiâu o'r daflen i'w dangos yn eu meddygfeydd.
- Gweithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent a Heddlu Gwent i gynorthwyo'r broses o gyflwyno 'Protocol Herbert', sef menter newydd i ddod o hyd i bobl leol sydd â dementia ac sydd ar goll.
- Mae wedi cynorthwyo Diverse Cymru gyda menter a ariennir gan Lywodraeth Cymru i nodi'r materion sy'n ymwneud â throseddau yn erbyn pobl hŷn, yn arbennig y rhai o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.



- Ym mis Tachwedd 2015, dyfarnwyd ‘Statws Rhuban Gwyn’ i’n swyddfa gan yr Ymgyrch Rhuban Gwyn er mwyn cydnabod y gwaith a wneir yng Nghymru i fynd i’r afael â chamdriniaeth ddomestig. Bu’r Comisiynydd hefyd yn cefnogi ‘Peace One Day’, sef ymgyrch fyd-eang a fu’n canolbwyntio eleni ar godi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth ddomestig.
- Darparwyd adborth parhaus ynglŷn â’r materion sy’n effeithio ar bobl hŷn drwy fod yn aelod o nifer o grwpiau allweddol o arbenigwyr a sefydlwyd i fynd i’r afael â chamdriniaeth ddomestig – gan gynnwys Grŵp Arwain Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid y Ddeddf Galluedd Meddyliol, grŵp llywio ‘Gofyn a Gweithredu’ Llywodraeth Cymru ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a Grŵp Ffocws Cymorth i Fenywod Cymru.
- Gwaith gyda BBC Wales i gynhyrchu rhaglen radio ac adroddiad newyddion ar y teledu ynghylch graddau ac effaith y gamdriniaeth ddomestig a ddioddefir gan bobl hŷn.

## 4.4. Lles a Grymuso

### 4.4.1. Dylanwadu ar Bolisiau, Deddfwriaeth ac Arferion

Mae Tîm Lles a Grymuso’r Comisiynydd yn dylanwadu ar bolisiau a’r broses o wneud penderfyniadau ar y lefel uchaf yng Nghymru, gan gynrychioli a hyrwyddo buddiannau pobl hŷn i gyrff cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru.

Mae’r Tîm Lles a Grymuso yn sicrhau bod ganddo’r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau nid yn unig mewn cysylltiad ag oedran, ond hefyd faterion sy’n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig eraill.

Mae’r Comisiynydd a’i thîm wedi parhau i gwrdd â Gweinidogion Cymru i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed ac y gwrandewir arnynt, a bod polisiau ac arferion yn adlewyrchu’r problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu, ac yn diwallu eu hanghenion.

Mae’r cyfarfodydd hyn wedi darparu cyfleoedd i’r Comisiynydd fynegi pryderon am feysydd deddfwriaethol nad ydynt yn canolbwyntio’n ddigonol ar bobl hŷn a chytuno ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o weithredu er mwyn cyflawni’r newid gofynnol.

Mae’r Comisiynydd hefyd wedi cwrdd â Chadeiryddion nifer o Bwyllgorau’r Cynulliad Cenedlaethol i dynnu sylw at feysydd y gellid eu hystyried a chynnal ymchwiliad iddynt ac mae wedi croesawu nifer o ymchwiliadau pwyllgor a fu’n arbennig o berthnasol i bobl hŷn.

### 4.4.2. Ymatebion i Ymgynghoriadau

Ymatebodd y Tîm Lles a Grymuso i ystod eang o ymgynghoriadau ar ran y Comisiynydd yn ystod 2015-16, gan ddefnyddio lleisiau a phrofiadau pobl hŷn i

sicrhau bod polisïau ac arferion arfaethedig yn adlewyrchu eu hanghenion ac y byddant yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Ymatebodd y tîm i gyfanswm o 35 o ymgynghoriadau yn 2015-16, gan gwmpasu pynciau fel Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru, Amcanion Cydraddoldeb Drafft Llywodraeth Cymru, cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer pobl drawsrywiol, a'r Ymgynghoriad ynghylch cynyddu nifer y menywod ar Fyrddau'r Sector Cyhoeddus a grwpiau eraill nad ydynt â chynrychiolaeth ddigonol arnynt.

#### **4.4.3. Tystiolaeth a Ddarparwyd i Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Drwy gydol 2015-16, bu'r Comisiynydd a'i Thîm Lles a Grymuso yn cyflwyno tystiolaeth i nifer o Ymchwiliadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Bil Rheoleiddio ac Arolygu (Cymru), y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Mai 2015
- Cyfleoedd Cyflogaeth i Bobl dros 50 oed, y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2015
- Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Medi 2015
- Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol, y Pwyllgor Menter a Busnes, Hydref 2015
- Galwad am dystiolaeth ynghylch y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), y Pwyllgor Cyllid, Ionawr 2016
- Gwaith dilynol ynghylch Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Ofal Preswyl i Bobl Hŷn ac Adolygiad y Comisiynydd o Gartrefi Gofal, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Ionawr 2016

#### **4.4.4. Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**

Mae'n hanfodol rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol mewn modd cadarn ac effeithiol, a hynny nid yn unig i amddiffyn pobl hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a'u cadw'n ddiogel, ond i sicrhau bod y gofal a'r cymorth a ddarperir iddynt o'r safon orau.

O ganlyniad, croesawodd y Comisiynydd gyhoeddi'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), a gynlluniwyd i ddarparu fframwaith statudol gwell ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Fodd bynnag, wrth ddadansoddi ei gynnwys, nodwyd nifer o ffyrdd y gellid cryfhau'r Bil er mwyn cyflawni rhagor i bobl hŷn.

Tynnwyd sylw at y meysydd a oedd yn peri pryder mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar a ddarparwyd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod y broses graffu gyn-ddeddfwriaethol, yn ogystal ag mewn papurau briffio i

Aelodau yng Nghyfnod 2 a Chyfnod 3 o'r gwaith craffu. Ymysg y meysydd yr oedd y Comisiynydd o'r farn fod angen gwelliannau ynddynt oedd addasrwydd i fod yn berchennog, cofrestru'r gweithlu, y diffiniad o ofal, integreiddio gofal cymdeithasol ac iechyd, a defnyddio aseswyr lleyg mewn arolygiadau.

O ganlyniad i ymyriadau'r Comisiynydd, mae camau wedi'u cymryd i gryfhau'r darpariaethau a nodir yn y Bil sy'n ymwneud â'r meysydd hyn.

#### **4.4.5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

I gynorthwyo'r broses o gyflawni agweddau allweddol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd wedi'i chynllunio i sicrhau y ceir dull ataliol a hirdymor o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau - sef dull sy'n hanfodol er mwyn gwella bywydau pobl hŷn - bu'r Comisiynydd yn ymgysylltu'n helaeth â Byrddau Gwasanaethau Lleol ledled Cymru yn ystod 2015-16. Diben y gwaith ymgysylltu hwn oedd sicrhau y bydd yr asesiadau llesiant a'r cynlluniau llesiant a fydd yn cael eu datblygu o dan y Ddeddf gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol newydd yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn ynghyd â mynd i'r afael â'r anghenion hynny, ac yn cydategu'r cynlluniau gweithredu Heneiddio'n Dda yng Nghymru a ddarperir gan Awdurdodau Lleol.

Yn sgil y cyfarfodydd â'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, mae'r Comisiynydd hefyd wedi dechrau datblygu canllawiau ffurfiol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gynorthwyo'r broses o ddatblygu eu cynlluniau llesiant, ynghyd â'r asesiadau o anghenion sy'n sail iddynt, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn 2016.

Ar lefel fwy strategol, bu'r Comisiynydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y dangosyddion cenedlaethol a ddefnyddir i fesur effaith y Ddeddf yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn berthnasol i bobl hŷn. Mae nifer o'r dangosyddion, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016, yn cydategu'r model ansawdd bywyd y mae blaenoriaethau'r Comisiynydd wedi'u seilio arno, gan ganolbwyntio ar faterion fel mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, teimlo'n ddiogel yn y cartref, ac unigrwydd ac arwahanrwydd.

#### **4.4.6. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno ystod eang o ddyletswyddau newydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn canolbwyntio mwy ar atal, annibyniaeth a llesiant wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â chynnig mwy o ddewis a rheolaeth i bobl hŷn a'u gofalwyr o ran y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael.

Er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn deall yr hyn y gallant ei ddisgwyl o dan y Ddeddf, cafodd llyfryn gwybodaeth ei ddatblygu sy'n egluro, mewn ffordd glir a hygyrch, yr egwyddorion sy'n sail i'r Ddeddf, yr hawliau sydd gan bobl hŷn erbyn hyn, a'r ffyrdd newydd y bydd eu hanghenion yn cael eu hasesu. Mae pecyn cymorth mwy manwl wedi'i ddatblygu hefyd, sy'n darparu rhagor o wybodaeth



am y ddeddfwriaeth newydd i bobl hŷn a gofalwyr i'w cynorthwyo gyda chael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt – ac y maent â hawl iddynt – o dan y Ddeddf.

#### **4.4.7. Gwireddu Hawliau i Bobl Hŷn**

Yn aml, bydd hawliau pobl hŷn yn lleihau mewn sawl ffordd wrth iddynt fynd yn hŷn, a gall hyn gael effaith enbyd ar eu bywyd, yn arbennig yn achos y rhai a all fod yn agored i niwed. O ganlyniad, defnyddiodd y Comisiynydd Ddiwrnod Hawliau Dynol (10 Rhagfyr) i alw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn amddiffyn ac yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn er mwyn iddynt allu byw yn rhydd o gamdriniaeth, esgeulustod, oedraniaeth a gwahaniaethu, chwarae rhan lawn yn eu cymunedau, a ffynnu wrth fynd yn hŷn.

Cynigiwyd un darn o ddeddfwriaeth a fyddai nid yn unig yn dwyn ynghyd nifer o offerynnau a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd wedi'u cynllunio i amddiffyn hawliau pobl hŷn, ond yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a ganfuwyd yn y ddeddfwriaeth bresennol sy'n golygu nad yw hawliau pobl yn cael eu cynnal. Byddai'r ddeddfwriaeth hon yn creu dyletswyddau penodol i gyrff cyhoeddus ac yn sicrhau bod dull o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar sail hawliau yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru.

Cafodd cynigion y Comisiynydd gefnogaeth drawsbleidiol, a bydd yn gweithio gyda Llywodraeth nesaf Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith hanfodol hwn yn ystod 2016- 17. I'w chynorthwyo gyda'r gwaith hwn, mae grŵp cynghorol sy'n cynnwys arbenigwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector cyfreithiol a'r trydydd sector, yn ogystal â phobl hŷn, wedi'i sefydlu i benderfynu ar yr hyn y gellid ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth arfaethedig a sut y byddai'n gweithredu mewn gwirionedd.

Bydd canfyddiadau'r grŵp hwn yn cael eu cyhoeddi yn yr haf yn 2016 a byddant yn rhoi cyfle gwirioneddol i Aelodau'r Cynulliad a Llywodraeth newydd Cymru fwrw ymlaen â'r agenda cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn a'u hyrwyddo a'u bod yn gyfartal ac yn gydradd â phobl o grwpiau oedran eraill.

#### **4.4.8. Canllawiau Adran 12: Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol a Gwaith Craffu**

Mae colli gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol allweddol, fel bysiau cyhoeddus, toiledau, llyfrgelloedd, canolfannau dydd a dysgu gydol oes, yn parhau'n fater pwysig i bobl hŷn ledled Cymru. Gan adeiladu ar sail gwaith a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol a gyflwynodd achos cryf o blaid cadw'r gwasanaethau hyn, defnyddiodd y Comisiynydd ei phwerau statudol i ddarparu Canllawiau ffurfiol ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol a Gwaith Craffu.

Mae'r Canllawiau hyn, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016, yn nodi sut y dylid cynnal asesiadau cadarn a thrylwyr o effaith a phrosesau craffu sy'n canfod unrhyw effaith anghymesur ar bobl hŷn pan fo newidiadau'n cael eu cynnig, yn ogystal â chymau y gellir eu cymryd i liniaru unrhyw effaith bosibl.

Datblygwyd y canllawiau gyda chymorth Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Awdurdodau Lleol. Er mwyn sicrhau y canolbwyntir mwy ar hawliau pobl hŷn drwy gydol y broses asesu, mae'r Canllawiau'n cynnwys dull sydd newydd ei ddatblygu o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol, sy'n cyfuno Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ag Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Dynol er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i gynnal asesiadau ehangach a mwy manwl o'r effaith mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

I gynorthwyo Awdurdodau Lleol i ymgorffori fy Nghanllawiau yn rhan o'u harferion gweithio, dechreuodd cyfres o weithdai hyfforddi ym mis Mawrth 2016 i sicrhau bod swyddogion ac Aelodau Cynghorau yn deall beth yw dull o weithredu ar sail hawliau ac yn gallu ei ddefnyddio wrth ystyried newidiadau i wasanaethau neu wneud penderfyniadau.

#### **4.4.9. Ymgorffori dull o weithredu ar sail hawliau**

Ym mis Medi 2015, cyfarfu'r Comisiynydd â Chadeiryddion Byrddau Iechyd i drafod manteision dull o weithredu ar sail hawliau wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ac i ganfod cyfleoedd i gydweithio er mwyn ymgorffori'r dull hwn ar draws y GIG yng Nghymru. Yn dilyn y cyfarfod hwn, buom yn gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i lunio papur ynglŷn â sut y gallai dull o weithredu ar sail hawliau gael ei fabwysiadu yn y GIG a'r gwahaniaeth y byddai hyn yn ei wneud i bobl hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Cafodd y papur hwn ei gyflwyno a'i groesawu mewn cyfarfod o amgylch bwrdd ym mis Chwefror 2016, y bu cynrychiolwyr Byrddau Iechyd allweddol ynddo, gan gynnwys Cadeiryddion, Aelodau Byrddau annibynnol, a Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd.

Roedd y cyfarfod yn gyfle hefyd i Fyrddau Iechyd rannu arferion da o ran amddiffyn hawliau pobl hŷn: cyflwynodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ei ddull sy'n seiliedig ar hawliau o ymdrin ag asesiadau galluedd meddyliol, a bu Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn trafod gwaith i ddatblygu siarter pobl hŷn, sy'n debyg i'r siarter hawliau plant y mae wedi'i datblygu eisoes.

Bydd y Comisiynydd yn parhau â'i gwaith gyda Chanolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a chyda Byrddau Iechyd i sicrhau bod gwaith i ymgorffori dull o weithredu ar sail hawliau mewn gwasanaethau gofal iechyd yn parhau i wneud cynnydd, a threfnwyd i gynnal cyfarfod arall o amgylch bwrdd ym mis Mehefin 2016 i drafod datblygiadau a chytuno ar gamau gweithredu pellach.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, bu'r Comisiynydd yn gweithio gyda Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r manteision sy'n gysylltiedig â gweithredu ar sail hawliau a dylanwadu ar yr agenda yng Nghymru sy'n seiliedig ar hawliau. Mae'r gwaith hwn wedi ennyn cryn ddiddordeb mewn bwrw ymlaen â dull o weithredu ar sail hawliau ymysg rhanddeiliaid allweddol eraill, fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac Academi Wales.

#### **4.4.10. Gwaith ychwanegol i ddylanwadu ar bolisïau, deddfwriaeth ac arferion**

Er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn deall anghenion pobl hŷn a bod yr anghenion hyn yn cael eu hadlewyrchu yn eu gwaith, mae'r Comisiynydd hefyd wedi parhau i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion drwy fod yn aelod o ystod eang o grwpiau o arbenigwyr a byrddau / paneli cynghori, a gweithio mewn partneriaeth â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Grwpiau Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar bobl hŷn a heneiddio, dementia, tlodi tanwydd a thrafnidiaeth gymunedol
- Grŵp Cynghori Allanol Llywodraeth Cymru ar Drechu Tlodi
- Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ddarparu Tai ar gyfer Poblogaeth sy'n Heneiddio
- Bwrdd Rhaglen Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru
- Panel Cynghorol Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Cymru
- Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol Cyngor ar Bopeth
- Fforwm Cymru y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
- Grŵp Llywio Arfer Da Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Strategol yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Pwyllgor Cymru y Gymdeithas Cludiant Cymunedol

#### **4.5. Cysylltu â phobl hŷn ledled Cymru, a gwranddo arnynt**

Rhan allweddol o waith y Comisiynydd o hyd yw ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl hŷn ledled Cymru, sy'n hanfodol ar gyfer sicrhau eu bod yn gwybod am ei gwaith a'r ffyrdd y mae'n gallu eu helpu. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn hefyd yn sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn arwain ac yn nodweddu gwaith y Comisiynydd ac yn parhau i fod wrth galon popeth y mae'n ei wneud.

##### **4.5.1. Sioe Deithio Ymgysylltu**

Cyfarfu'r Comisiynydd a'i thîm â 218 o grwpiau ledled Cymru yn ystod 2015-16, gan ymgysylltu â mwy na 5,600 o bobl hŷn mewn ystod eang o ddigwyddiadau, gan gynnwys cynadleddau, cyfarfodydd fforymau, grwpiau cymorth a grwpiau cymdeithasol. Ymwelodd y Sioe Deithio Ymgysylltu â phob Awdurdod Lleol yng Nghymru, gan olygu bod y Comisiynydd a'i thîm wedi teithio dros 20,000 o filltiroedd i gysylltu â phobl hŷn.

Gan adeiladu ar sail y dull llwyddiannus a fabwysiadwyd mewn blynyddoedd a fu i gysylltu â phobl hŷn yn eu holl amrywiaeth, parhaodd y Sioe Deithio Ymgysylltu i ymweld â'r mannau lle y mae pobl hŷn yn byw eu bywyd, gan gynnwys clybiau cymdeithasol, canolfannau dydd, grwpiau gofalgwyr, caffis dementia, cartrefi gofal, a chynlluniau tai gofal ychwanegol. Aeth tîm y Comisiynydd hefyd i ddiwrnodau gwybodaeth a digwyddiadau cymunedol ledled Cymru, gan redeg stondinau gwybodaeth er mwyn darparu gwybodaeth, cyngor ac adnoddau defnyddiol yn uniongyrchol i bobl hŷn a'r rhai sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cynorthwyo.

Yn ystod 2015-16, cafwyd ffocws hyd yn oed mwy ar gysylltu â phobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig a chofnodi lleisiau'r rhai nas clywir yn aml, sy'n hollbwysig er mwyn sicrhau bod eu profiadau o fynd yn hŷn yng Nghymru yn cael eu hadlewyrchu ym mhob rhan o waith y Comisiynydd. I ategu hyn, rydym wedi gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau sy'n cynorthwyo pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys Race Equality First, Women Connect First, Swansea Sparkles, Sense, DeafBlind Cymru, y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd (Abertawe), Canolfan India (Caerdydd) a Men's Sheds.

Er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n llunio polisïau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn clywed yn uniongyrchol am brofiadau pobl hŷn ac yn deall yr heriau y maent yn eu hwynebu, cafodd nifer o ymweliadau ar y cyd eu trefnu gydag Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol, Arweinwyr Cynghorau a Chynghorwyr o bob rhan o Gymru, gan ddarparu cyfleoedd i bobl hŷn drafod y materion sydd o bwys iddynt hwy ac awgrymu ffyrdd o gyflawni gwelliannau.

#### **4.5.2. Ymgysylltu'n Ehangach**

Yn ychwanegol at y Sioe Deithio Ymgysylltu, mae'r Comisiynydd wedi parhau i weithio gyda sefydliadau ffurfiol sy'n cynrychioli pobl hŷn, fel y Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol, Cymru Bywiog (Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru gynt), Cynghrair Pobl Hŷn Cymru a'r Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol, yn ogystal â fforymau pobl hŷn ledled Cymru.

Drwy gydol 2015-16, parhaodd gwaith hefyd gydag ystod eang o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, Byrddau Gwasanaeth Lleol, Swyddfa Archwilio Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Safonau Masnach, yn ogystal ag ystod eang o sefydliadau'r trydydd sector, fel Cynghrair Henoed Cymru, Age Cymru, Cymdeithas Alzheimer, Diverse Cymru, RNIB Cymru a Sefydliad Joseph Rowntree, i ddarparu areithiau arbennig mewn cynadleddau a digwyddiadau, a chwrdd ag unigolion allweddol yn y sefydliadau hyn.

Mae'r gwaith hwn yn hanfodol er mwyn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o ran profiadau pobl hŷn, yr heriau y maent yn eu hwynebu a'r materion sy'n effeithio ar eu bywyd. Mae hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i hyrwyddo arferion

da, a chanfod cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni nodau ac amcanion a rennir fel y gellir gwella bywyd pobl hŷn ac ysgogi newidiadau ar eu rhan.

#### **4.5.3. Cyfryngau**

Mae gweithio gyda'r cyfryngau drwy gydol y flwyddyn nid yn unig wedi galluogi'r Comisiynydd i gysylltu â nifer fawr o bobl hŷn er mwyn iddynt wybod am y gwaith a wneir i ysgogi newidiadau ar eu rhan a gwneud gwahaniaeth i'w bywyd, mae hefyd yn sicrhau bod y materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yn cael eu hamlygu i'r cyhoedd ehangach. Yn y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd y Comisiynydd i fod yn amlwg iawn yn y cyfryngau, a hynny ym myd teledu a radio, gan ymddangos sawl gwaith ar BBC Wales Today, newyddion ITV Cymru, rhaglen Newyddion S4C, BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales.

Rhodddwyd sylw helaeth hefyd i'r Comisiynydd mewn papurau newydd dyddiol, fel y Western Mail, y Daily Post, y South Wales Argus, y South Wales Evening Post a'r South Wales Echo, yn ogystal â phapurau newydd lleol wythnosol ledled Cymru. Ar ben hynny, cafodd sylwadau a wnaed am nifer o faterion eu cynnwys mewn erthyglau a gyhoeddwyd gan bapurau newydd cenedlaethol y DU, gan gynnwys yr Independent a'r Daily Mail.

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi parhau i ysgrifennu colofnau ac erthyglau ar gyfer amryw o gyhoeddiadau eraill, fel cylchgronau, cyfnodolion, blogiau a chyhoeddiadau yn y Gymraeg er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i gysylltu â phobl hŷn a rhanddeiliaid ledled Cymru.

#### **4.5.4. Cydnabod Rhagoriaeth**

Mae hyrwyddo arferion da sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd pobl hŷn yn rhan bwysig iawn o waith y Comisiynydd ac mae wedi cwrdd â nifer o aelodau staff rhagorol ym maes gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy gyfrwng eu gwaith.

Er mwyn i'r arferion da hyn gael eu cydnabod yn ffurfiol ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, bu i'r Comisiynydd noddi Gwobrau Nyrs y Flwyddyn Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) Cymru a Gwobrau Gofal Cymru, sy'n cael eu trefnu gan Fforwm Gofal Cymru, gan gydnabod y cyfraniad hynod werthfawr y mae unigolion rhagorol yn ei wneud a dathlu nid yn unig eu hymrwymiad i wella bywydau pobl hŷn, ond eu hymroddiad, eu gwaith caled, a'u harloesedd.

Bu'r Comisiynydd hefyd yn gweithio gydag Arfer Da Cymru drwy gydol 2015-16 i rannu, drwy gyfrwng gwefan canolfan wybodaeth Arfer Da Cymru, arferion da ac arloesedd o bob rhan o Gymru a arsylwyd yn uniongyrchol.



## 5. Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd

Cyhoeddodd y Comisiynydd Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar ei newydd wedd ym Mawrth 2014 ar ôl ymgynghori â phobl hŷn a rhanddeiliaid, i gymryd lle'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gyhoeddwyd ym Mawrth 2012.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn nodi amcanion cydraddoldeb penodol ac yn amlinellu'r ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol. Cyhoeddwyd y strategaeth newydd i sicrhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol wedi'u sefydlu ym meddylfryd ac arferion gweithio'r Comisiynydd a'i staff.

Ym mis Tachwedd 2014, diweddarodd y Comisiynydd y ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i roi gwell ystyriaeth i briodas a phartneriaeth sifil, a hynny'n dilyn adborth buddiol ar gwblhau EIA yn ystod y flwyddyn.

### **Nododd y Comisiynydd yr amcanion canlynol ar gyfer 2012-16:**

- 1. Sicrhau wrth gyflogi staff nad wyf yn gwahaniaethu yn erbyn neb, fy mod yn hybu cyfle cyfartal i bawb ac yn meithrin perthynas dda rhwng aelodau staff.**
  - Fe geisiaf gynyddu amrywiaeth fy ngweithlu
  - Fe gaiff pawb o'r staff gyfleon i ddatblygu a symud ymlaen er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn cael yr un cyfle i gyflawni eu potensial yn llawn
  - Fe sicrhaf fod pob aelod o'r staff yn cael ei wobrwyo ac yn derbyn tâl ar sail gyfartal, nodwedd warchoddedig neu beidio
  - Fe sicrhaf fod diwylliant o fewn fy sefydliad lle bydd pob aelod staff yn teimlo'n gyfforddus i fod yn agored ynglŷn â'i nodweddion gwarchoddedig ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi gennyf fi fel cyflogwr ac ar draws y sefydliad
- 2. Sicrhau bod fy mholisiau a'm harferion caffael a'r dogfennau tendro cysylltiedig yn cymryd i ystyriaeth yr angen i ateb gofynion cydraddoldeb cyfreithiol.**
  - Fe adolygaf fy holl bolisiau ac arferion caffael a'm dogfennau tendro i sicrhau eu bod yn cwblhau dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus
  - Fe sicrhaf fod contractwyr yn gwbl ymwybodol o'm dyletswyddau cydraddoldeb trwy ysgrifennu hyn yn y manylebau tendro a thrwy brofi eu dealltwriaeth yn ystod y broses ddewis

### **3. Sicrhau bod fy ngwaith yn berthnasol i bobl hŷn, ac y gwelir ei fod yn berthnasol i bawb ohonynt.**

- Fe ymgysylltaf yn fwy o lawer â phobl hŷn ar draws yr holl wahanol nodweddion gwarchoddedig a thrwy hyn sicrhaf fod eu lleisiau'n bwydo ac yn llywio fy ngwaith
- Fe wnaif yn siŵr wrth lunio adroddiadau am effaith a chyrhaeddiad fy ngwaith y cyfeirir yn benodol at grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig
- Fe gryfhaf yr asesiad effaith sy'n sail i'm gwaith er mwyn sicrhau bod fy ngwaith yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith nodweddion gwarchoddedig ar y canlyniad a geisir i bobl hŷn

### **4. Sicrhau bod fy ngwaith wedi'i seilio fwyfwy ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau a bod agenda hawliau'n cael ei datblygu drwy Gymru gyfan.**

- Fe ddarparaf hyfforddiant hawliau dynol parhaus i bob un o'm staff
- Fe arfogaf fy staff i ddeall a hyrwyddo beth a olygir yn ymarferol wrth ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol

### **5. Grymuso ac arfogi pobl hŷn i herio'r gwahaniaethu y maent yn ei wynebu.**

- Trwy fy ngwaith, fe rymusaf a chynorthwyo pobl hŷn i herio arferion gwahaniaethol a sicrhau eu hawliau dynol
- Fe gryfhaf y modd y gweithiwn mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol er mwyn cryfhau ein lleisiau ac effaith ein gwaith
- Fe arfogaf bobl hŷn â'r wybodaeth a'r offer i ymladd yn erbyn gwahaniaethu
- Fe ddarparaf gefnogaeth a chymorth i bobl hŷn sydd wedi dioddef gwahaniaethu

### **6. Hyrwyddo darlun cywir a chytbwys o bobl hŷn yn eu holl amrywiaeth, cynyddu dealltwriaeth am bobl hŷn a'u hanghenion a herio ystrydebau di-sail a bychanol, yn fy sefydliad i ac ymysg sefydliadau eraill.**

- Fe gynyddaf ddyfnder y ddealltwriaeth ymysg fy staff am amrywiaeth pobl hŷn a'r graddau y mae nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau a'u bywydau ehangach
- Fe gynyddaf ddyfnder y ddealltwriaeth ymysg gwasanaethau cyhoeddus allweddol am amrywiaeth pobl hŷn a'r graddau y mae nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau a'u bywydau ehangach
- Fe heriaf ystrydebau a mythau negyddol am bobl hŷn yn barhaus, gan osod disgwyliadau clir ar gyfer newid

**7. Annog a chefnogi cyrff cyhoeddus eraill i gydymffurfio â'u dyletswyddau eu hunain dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel y maent yn berthnasol i bobl hŷn a herio achosion difrifol o beidio â chyflawni dyletswyddau cyfreithiol.**

- Fe roddaf arweiniad i gyrff cyhoeddus sy'n gwneud newidiadau i wasanaethau allweddol er mwyn eu cynorthwyo i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol yng nghyswllt ymgysylltu, asesu effaith a chymesuredd
- Fe sicrhaf fod newidiadau i wasanaethau a allai gael effaith sylweddol ar bobl hŷn yn cael eu hadolygu'n barhaus, a lle credaf fod effaith niweidiol sylweddol neu effaith anghymesur sylweddol yn debygol byddaf yn galw cyrff cyhoeddus i gyfrif
- Fe sicrhaf fod cynlluniau cydraddoldeb a chynlluniau strategol allweddol eraill Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a'r Byrddau Iechyd yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu dealltwriaeth gadarn o effaith nodweddion gwarchoddedig ar bobl hŷn ac ar y modd y darperir gwasanaethau a chefnogaeth



## 6. Yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2015-16

Aminellir isod yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn yr amcanion:

Amcan	Swyddog Arweiniol	Amserlen	Dulliau mesur	Gweithgarwch / Camau a gymerwyd
<p><b>1. Sicrhau wrth gyflogi staff nad wyf yn gwahaniaethu yn erbyn neb, fy mod yn hybu cyfle cyfartal i bawb ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng aelodau o'r staff.</b></p>				
<p><b>2. Sicrhau bod fy mholisiau a'm harferion caffael a'r dogfennau tendro cysylltiedig yn cymryd i ystyriaeth yr angen i ddiwallu gofynion cydraddoldeb cyfreithiol.</b></p>				
Byddaf yn adolygu fy holl bolisiau ac arferion caffael a'r dogfennau tendro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.	Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad	Erbyn Mawrth 2016	Tystiolaeth bod yr holl bolisiau a dogfennau wedi cael ei diweddarau.	Cynhaliodd y Comisiynydd adolygiad blynyddol o'i Gweithdrefnau Prynu sy'n cynnwys archebu'r holl nwyddau a gwasanaethau. Mae'r gweithdrefnau'n cyfeirio'n benodol at Gynllun Cydraddoldeb y Comisiynydd a'r Cynllun Iaith Gymraeg.
Byddaf yn sicrhau bod contractwyr yn gwbl ymwybodol o fy nyletswyddau cydraddoldeb trwy gynnwys hyn yn ysgrifenedig mewn contractau, ac o'u cyfrifoldeb i gyflenwi neu ddarparu nwyddau a gwasanaethau mewn	Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad	Erbyn Mawrth 2016	Tystiolaeth bod contractwyr wedi llofnodi cydnabyddiaeth o'r newidiadau	Mae templad y cytundeb wedi ei ddiweddarau i adlewyrchu hyn.

ffordd na fydd yn mynd yn groes i'r dyletswyddau hynny.				
<b>3. Sicrhau bod fy ngwaith yn berthnasol i bobl hŷn, a bod hynny i'w weld yn amlwg.</b>				
Byddaf yn cynyddu'n sylweddol fy ymgysylltiad â phobl hŷn ar draws ystod o nodweddion gwarchoddedig a thrwy hyn byddaf yn sicrhau bod eu llais yn sail i fy ngwaith yn ogystal â'i arwain	Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Erbyn Mawrth 2016	Tystiolaeth bod: Y grwpiau rwyf yn ymgysylltu â hwy'n cynrychioli amrywiaeth ehangach o bobl hŷn a fy mod wedi chwilio am ac wedi ymweld â grwpiau sy'n aml yn cael eu hanwybyddu Mae'r bobl hŷn y byddaf yn clywed ganddynt yn cynrychioli amrywiaeth ehangach o bobl hŷn nag yn 2008-2013 Mae fy nghyhoeddiadau'n berthnasol ac yn hygyrch i, ac yn adlewyrchu a	Rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 roedd y Comisiynydd a'i tîm wedi cwrdd â 218 o grwpiau o bob rhan o Gymru, gan deithio dros 20,000 o filltiroedd i gwrdd â dros 5,600 o bobl hŷn. Bu'r Comisiynydd a'i tîm yn ymweld ag ardal pob Awdurdod Lleol yng Nghymru, a bu'n cwrdd ac yn siarad â phobl hŷn mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau, o gynadleddau mawr i grwpiau cymorth a chymdeithasol lleol. Ers sefydlu'r Sioe Ymgysylltu Deithiol yn 2012, mae'r Comisiynydd a'i tîm wedi mynd ati i chwilio am grwpiau o bobl hŷn â nodweddion gwarchoddedig. Trwy fabwysiadu ymagwedd ragweithiol, mae'r tîm yn gallu cwrdd ag amrywiaeth mor fawr â phosibl o bobl hŷn. Mae manylion am yr ymgysylltu hwn yn cael eu hadrodd i'r Tîm Rheoli Strategol i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth mor eang â phosibl o bobl hŷn.

<p>chynrychioli materion a godwyd gan ystod llawer ehangach o bobl hŷn nag yn 2008-2013</p>	<p>Yn ystod 2015-16, cyfarfu Sioe Ymgysylltu Deithiol y Comisiynydd â 152 o grwpiau o bobl hŷn a oedd wedi'u diffinio fel bod ag un neu ragor o nodweddion gwarchoddedig. Mae'r Comisiynydd wedi dewis diffinio'r Iaith Gymraeg, Gofalwyr a Natur Wledig hefyd fel nodweddion i'w targedu.</p> <p>Mae holl ddogfennau'r Comisiynydd ar gael mewn fformatau hygyrch. Yn achos dogfennau sy'n cael eu dosbarthu'n eang fel yr Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad a'r Daflen Graidd, mae fersiynau sain a phrint bras yn cael eu cynhyrchu. Mae dogfennau ar gyfer pobl hŷn bob amser yn cael eu cynhyrchu fel copi caled ac ar-lein. Mae'r Comisiynydd yn gweithio â chyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i sicrhau bod dogfennau allweddol yn cael eu cynhyrchu mewn BSL. Mae'r Daflen Graidd yn cael ei chynhyrchu hefyd mewn Bengali, Wrddw, Somali a Gujarati.</p>

**4. Byddaf yn sicrhau bod fy ngwaith wedi'i seilio fwyfwy ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau a bod agenda sy'n canolbwyntio ar hawliau'n cael ei datblygu drwy Gymru gyfan.**

<p>Byddaf yn galluogi fy staff i ddeall a hyrwyddo'r hyn mae dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol yn ei olygu'n ymarferol</p>	<p>Cyfarwyddwr Amddiffyn a Chraffu</p>	<p>Mawrth 2016</p>	<p>Tystiolaeth bod: Staff yn integreiddio dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol yn eu gwaith Staff yn helpu eraill o'r tu allan i'r sefydliad i ddeall sut y mae hawliau dynol yn gweithio'n ymarferol, yn enwedig i bobl hŷn</p>	<p>Ers cael hyfforddiant mewn hawliau dynol gan Sefydliad Hawliau Dynol Prydain ym mis Mawrth 2014, rwyf wedi parhau i alluogi fy staff i ddeall ac i hyrwyddo dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru o ran gwasanaethau rheng flaen a datblygiad polisi.  Er enghraifft, creffir ar bob ymholiad ac achos trwy lygad hawliau dynol i sicrhau bod sylw darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a gofal annibynnol yn cael ei dynnu at unrhyw achos posibl o dorri hawliau dynol pobl hŷn, fel yr hawl i beidio â chael eu trin mewn ffordd annynol neu ddiraddiol, neu'r hawl i gael bywyd teuluol i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu diogelu a bod eu hawliau'n cael eu parchu.  Cafodd hyfforddiant mewnol ar Oedraniaeth a Dull sy'n Seiliedig ar Hawliau ei gynnal ar 25 Medi 2015, yn ogystal â defnyddio diwrnod cwrdd i ffwrdd staff ar 15 Ionawr 2016, i alluogi fy nhim i fynychu gweithdy ar adnoddau</p>
---	--	------------------------	--	--

				oedraniaeth a hawliau dynol a ddarparwyd yn allanol ar gyfer pobl hŷn ac asiantaethau allanol.  Cafodd 10 diwrnod o Herio Oedraniaeth a ddefnyddio Duill yn Seiliedig ar Hawliau ei gyflwyno i weithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus.
<b>5. Grymuso ac arfogi pobl hŷn i herio'r gwahaniaethu y maent yn ei wynebu.</b>				
Byddaf yn darparu cefnogaeth a chymorth i bobl hŷn sydd wedi dioddef gwahaniaethu gan ddefnyddio fy mhwerau cyfreithiol, pan fo hynny'n briodol	Cyfarwyddwr Amddiffyn a Chraffu	Erbyn Mawrth 2016	Tystiolaeth bod:  Pobl hŷn sydd wedi dioddef gwahaniaethu'n cael cymorth effeithiol gennyf fi a fy nhîm i herio gwahaniaethu ac i gyflawni canlyniadau positif yn y rhan fwyaf o achosion  Cyff cyhoeddus sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cael eu herio gen i ac yn newid polisiau	Mae fy ngwaith achos yn parhau i herio gwahaniaethu posibl yn erbyn pobl hŷn gan Gyrrf Cyhoeddus. Mae eu hymyriadau wedi sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu cynnal a bod pobl hŷn yn cael eu grymuso i weithredu ar eu pen eu hunain.  Mae llwyddiant yr ymyriadau hyn wedi golygu nad wyf eto wedi bod mewn sefyllfa lle'r oedd yn briodol i mi ddefnyddio fy mhwerau.  Mae dysgu o'r ymyriadau hyn hefyd wedi arwain at ddatblygu:  3 sesiwn Herio Oedraniaeth a gyflwynwyd i grwpiau pobl hŷn rhwng Ionawr a Mawrth 2016.  Roedd y sesiynau hyn yn dangos beth yn union yw oedraniaeth ac yn egluro

		<p>neu arferion gweithio o ganlyniad</p> <p>Buddiannau ehangach i bobl hŷn o ganlyniad i achosion unigol yn cael eu datrys ac yn arwain at newidiadau mewn polisiau neu arferion gweithio</p>	<p>pa opsiynau cyfreithiol sydd ar gael i bobl hŷn i herio oedraniaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus.</p> <p><b>Nodau'r sesiwn:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• diffinio oedraniaeth ac edrych sut y mae stereoteipiau a rhagfarn yn ei ategu</li> <li>• tynnu sylw at effeithiau oedraniaeth</li> <li>• egluro sut y gall pobl hŷn ddefnyddio Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998 i herio gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn gweld neu'n profi oedraniaeth.</li> </ul> <p><b>Deilliannau dysgu:</b></p> <p>Ar ôl yr hyfforddiant, dywedodd pobl hŷn eu bod yn teimlo:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn fwy galluog i adnabod oedraniaeth</li> <li>• yn fwy hyderus i herio oedraniaeth</li> <li>• a'u bod yn gwybod sut i ddefnyddio Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998 i herio gwasanaethau cyhoeddus</li> </ul>
--	--	---	--



**6. Hybu darlun cywir a chytbwys o bobl hŷn yn eu holl amrywiaeth, gwella dealltwriaeth o bobl hŷn a'u hanghenion a herio stereoteipiau di-sail a bychanol, yn fy sefydliad i ac mewn sefydliadau eraill.**

<p>Byddaf yn parhau i herio stereoteipiau a mythau negyddol am bobl hŷn ac yn pennu disgwyliaidau pendant ar gyfer newid</p>	<p>Cyfarwyddwr Amddiffyn a Chraffu</p>	<p>Erbyn Mawrth 2016</p>	<p>Tystiolaeth sy'n dangos bod:  Llai o achosion lle mae iaith fychanol neu negyddol yn cael ei defnyddio wrth gyfeirio at bobl hŷn gan y cyfryngau a mwy o achosion o iaith a storïau positif am bobl hŷn  Pobl hŷn yn herio gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol yn llwyddiannus o ddydd i ddydd  Gwasanaethau a dogfennau cyhoeddus yn cyfeirio llai at bobl hŷn fel grŵp unffurf a mwy am anghenion a dyheadau</p>	<p>Ym mis Hydref 2015, lansiodd y Comisiynydd ei hymgyrch Dweud Na i Oedraniaeth, a oedd yn rhoi pwyslais ar godi ymwybyddiaeth ymhlith gwleidyddion, y cyfryngau a'r cyhoedd yn gyffredinol o gyfraniad pobl hŷn at gymdeithas ac effaith oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran.  Roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar yr iaith a ddefnyddir wrth sôn am bobl hŷn mewn cymdeithas a'r gwrthgyferbyniad rhwng hynny â'r cyfraniad y mae pobl hŷn yn ei wneud at gymdeithas fel gwirfoddoli a gofal plant. Roedd yr ymgyrch yn ymdrechu i bortreadu pobl hŷn mewn ffordd llawer mwy positif na'r hyn a welir yn aml.  Roedd yr ymgyrch yn llwyddiannus iawn gyda 36 o Aelodau Cynulliad yn cymryd rhan yn yr ymgyrch, cafwyd sylw mewn papurau newydd dyddiol ledled Cymru, cafwyd cyfraniad da gan randdeiliaid a gwelwyd y fideo dros 2,500 o weithiau ar YouTube.</p>
--	--	----------------------------------	---	--

				unigolion hŷn a sut y bydd y rhain yn cael eu diwallu	
<p><b>7. Annog a chefnogi cyrff cyhoeddus eraill i gydymffurfio â'u dyletswyddau eu hunain dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel y maent yn berthnasol i bobl hŷn a herio achosion difrifol o beidio â chyflawni dyletswyddau cyfreithiol.</b></p>					
Byddaf yn adolygu newidiadau i wasanaethau a all gael effaith sylweddol ar bobl hŷn, ac os wyf yn credu bod niwed sylweddol neu effaith sylweddol anghymesur yn debygol byddaf yn dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif	Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso	Erbyn Mawrth 2016	Tystiolaeth: Rwyf wedi adolygu gwasanaethau cyhoeddus ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer newid positif  Cyrff cyhoeddus yn ymateb i fy argymhellion ac yn gweithredu'r rhan fwyaf ohonynt  Rwyf yn dwyn i gyfrif – gan ddefnyddio pŵerau cyfreithiol pan fydd angen – y cyrff cyhoeddus hynny sydd, heb reswm digonol, yn gwrthod gweithredu fy argymhellion.	Un o fy mlaenoriaethau fel Comisiynydd, fel yr amlinellwyd yn fy Fframwaith Gweithredu 2013-17, yw gwarchod a gwella gwasanaethau cymunedol – gwasanaethau anstatudol fel canolfannau dydd, toiledau cyhoeddus, llyfrgelloedd a thrafnidiaeth sy'n cael eu disgrifio gan bobl hŷn fel gwasanaethau hanfodol.  Er eu bod yr un mor bwysig i iechyd, annibyniaeth a llesiant pobl hŷn â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol, mae gwasanaethau cymunedol mewn perygl ledled Cymru oherwydd gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus, rhywbeth sy'n achos pryder mawr i lawer o bobl hŷn.  Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddais ganllaw ar Asesiadau o Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer Awdurdodau Lleol o dan Adran 12 o	



Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Fe'i datblygwyd i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn craffu'n ofalus ar gynigion i newid gwasanaethau cymunedol i sicrhau nad oes effaith anghymesur ar bobl hŷn a bod mesurau eraill yn cael eu hystyried.

Mae'r Canllaw wedi'i rannu'n ddwy ran:

Mae **Rhan 1** yn edrych ar bwysigrwydd Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ac mae'n hyrwyddo'r angen i ddefnyddio Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRIA) pan fydd newidiadau i wasanaethau cymunedol yn cael eu hystyried. Mae Rhan 1 yn berthnasol i bob corff gwasanaeth cyhoeddus sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymunedol i bobl hŷn.

Mae **Rhan 2** yn edrych ar rôl holl bwysig craffu ar newidiadau i wasanaethau cymunedol ac mae wedi'i hanelu at aelodau etholedig a swyddogion llywodraeth leol. Y nod yw gwella ansawdd craffu a sicrhau bod effaith cau neu leihau gwasanaethau cymunedol ar bobl hŷn yn cael ei dadansoddi a'i hystyried yn fanwl iawn.

<p>Os wyf wedi cael fy hysbysu nad yw Cyrff Cyhoeddus wedi cyflawni neu y gallant fod wedi torri eu dyletswyddau cydraddoldeb statudol, byddaf yn defnyddio'r canllaw hwn i gadarnhau fy safbwynt ac i ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif o ran ymgynghori'n ystyrlon â'r cyhoedd, eu heffeithiolrwydd, ystyried mesurau lliniaru ac opsiynau eraill posibl yn ogystal â chraffu effeithiol.</p>	<p>Trwy'r cymorth a'r gefnogaeth uniongyrchol rwyf yn eu cynnig i bobl hŷn, dywedwyd wrthyf droeon mai prin yw'r cyfleoedd i bobl hŷn i fynegi eu pryderon am newidiadau i wasanaethau cymunedol, neu nad yw eu hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.</p>	<p>Dyma pam fod y pecyn cymorth a gynhyrchwyd gennyf yng Ngorffennaf 2014, 'Ymgysylltu Effeithiol gydag Awdurdodau Lleol - pecyn cymorth ar gyfer pobl hŷn' yn parhau i gael ei ddefnyddio gan bobl hŷn ledled Cymru.</p>

# Atodiad A: Proffiliau'r gweithlu ar 31/03/16

## Gwybodaeth cyfrif pennau

**1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y bobl a gyflogir gan yr awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn fesul nodwedd warchoddedig.**

- Oed
- Trawsrywedd
- Rhyw
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl
- Crefydd neu gred – yn cynnwys diffyg cred

Bydd y Comisiynydd yn ymgymryd ag arolwg staff blynyddol i gasglu data cydraddoldeb rheolaidd. Mae'r arolwg hwn yn gyfrinachol ac mae'r ymatebion yn ddiennw. Am y flwyddyn 2015-16 cafodd y Comisiynydd 19 ymateb allan o 21 posib. Ond oherwydd maint y sefydliad, lle bo'r ffigurau'n cyfrif am lai na 10%, tynnwyd y manylion allan er mwyn sicrhau na ellir adnabod unigolion.

### Nifer y bobl a gyflogir fesul Nodwedd Warchoddedig:

Oed	
16-24	-
25-34	6
35-44	7
45-54	3
55-64	-
65 a throsodd	-
Dewis Peidio Dweud	-
Rhyw	
Gwryw	4
Benyw	14
Dewis Peidio Dweud	-

**Ai'r rhyw a briodolwyd ichi pan gawsoch eich geni yw'r rhyw yr ydych yn ei arddel nawr?**

Ie	19
Na	-
Dewis Peidio Dweud	-

**Cyfeiriadedd rhywiol**

Deurywiol	-
Dyn Hoyw	-
Menyw Hoyw / Lesbiad	-
Heterorywiol / Strêt	15
Arall	-
Dewis Peidio Dweud	3

**Crefydd neu Gred**

Dim crefydd na chred	9
Cristion (pob enwad)	5
Bwdydd	-
Hindw	-
Iddew	-
Mwslim	-
Sikh	-
Unrhyw grefydd neu gred arall	-
Dewis peidio dweud	3

**Hil (yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl)**

Gwyn: Sais/Saesnes	-
Gwyn: Albanwr/Albanes	-
Gwyn: Cymro/Cymraes	15
Gwyn: Gogledd Iwerddon	-
Gwyn: Prydeiniwr/wraig	-
Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	-
Gwyn: Gwyddel/Gwyddeles	-
Gwyn: Arall	-
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn a Du'r Caribî	-
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn a Du Affrica	-
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn ac Asiaidd	-
Cefndir ethnig cymysg/lluosog arall	-
Asiaidd – Indiaidd	-
Asiaidd – Pacistani	-
Asiaidd – Bangladeshi	-

Asiaidd – Tsieineaidd	-
Asiaidd – Prydeiniwr/wraig	-
Cefndir Asiaidd Arall	-
Du – Caribïaidd	-
Du – Affricanaidd	-
Du – Prydeiniwr/wraig	-
Du – Arall (rhowch fanylion)	-
Grŵp ethnig arall (rhowch fanylion)	-
Dewis peidio dweud	-

Anabledd	Oes	Na / Amh	Dewis Peidio Dweud
Oes gennych anabledd, yn eich tyb chi?	-	16	-
Oes gennych anabledd fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb?	-	16	3
Oes gan o leiaf un person sy'n ddibynnol arnoch anabledd?	-	15	4

Cymerwyd y data isod o gofnodion Adnoddau Dynol yn hytrach na thrwy'r arolwg staff blynyddol.

Beichiogrwydd a Mamolaeth	
Nifer gweithwyr beichiog yn ystod 2015-16	1
Nifer gweithwyr yn cymryd Absenoldeb Mamolaeth yn ystod 2015-16	3

**2. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y dynion a'r menywod a gyflogir, wedi'u didoli yn ôl y categorïau canlynol:**

Swydd	Dyn	Menyw	Cyfanswm
Gweinyddwr	-	-	-
Swyddog Cymorth/Cynorthwyol a Swyddog	2	3	5
Swyddog	1	6	7
Arweinydd	2	4	6
Cyfarwyddwr	0	3	3
Comisiynydd	0	1	1

Cyflog a Gradd	Dyn	Menyw	Cyfanswm
16,300 – 20,000/ A	-	-	-
20,800 – 25,250 / B	2	3	5
26,500 – 32,200 / C	1	6	7

33,800 – 41,050 / D	2	4	6
41,950 – 51,850 / E	-	-	-
54,900 – 65,400 / F	-	3	3
60,000 – 117,800* / Comisiynydd	-	1	1

\*Pennwyd y Lefel Cyflog gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch

Math o Gontract	Dyn	Menyw	Cyfanswm
Parhaol	3	13	16
Tymor Penodol	2	4	6
Dros Dro	-	-	-

Patrwm Gweithio	Dyn	Menyw	Cyfanswm
Amser Llawn	4	16	20
Rhan Amser	-	1	1
Oriau Cywasgedig	-	1	1

## Recriwtio

### 1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y bobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r corff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwmo i gynyddu amrywiaeth ei staff drwy adolygu prosesau recriwtio'r Comisiynydd gan gynnwys y ffurflen gais, sut yr hysbysebwn a ble yr hysbysebwn.

Mae ffurflenni cais eisoes ar gael mewn gwahanol fformatau a chyhoeddir hysbysebion recriwtio'n helaeth gan ddefnyddio sawl cyfrwng gwahanol. Mae gan y Comisiynydd Bolisi Urddas a Chydraddoldeb yn y Gwaith a dilyna arfer dda yn y broses recriwtio. Yr adran Adnoddau Dynol yn unig gaiff weld pob gwybodaeth ynglŷn â nodweddion gwarchodedig o fewn ffurflenni cais ac ni rennir hynny gyda'r panel dewis. Yn ogystal, mae addasiadau rhesymol ar gael i bob ymgeisydd a nodir hyn ar y ffurflen gais a chyfeirir ato eto pan wahoddir ymgeiswyr i gyfweiliad. Fe ddarparwyd addasiadau rhesymol ar gyfer un ymgeisydd yn 2015-16.

Mae'r Comisiynydd yn dal i ddatblygu a gwella'r strategaeth recriwtio a'r prosesau trin ceisiadau er mwyn hyrwyddo gweithlu amrywiol. Ni fydd llawer o gyfle i gynyddu'r staff a ddaw i mewn oherwydd cyfyngiadau cyllidebol ar swyddi ychwanegol, maint y sefydliad, a throsiant isel staff.

Yn ystod 2015-16 recriwtiodd y Comisiynydd ar gyfer 8 swydd, a'u llenwi, trwy ddulliau recriwtio allanol a 3 swydd trwy brosesau recriwtio mewnol. Caiff pob ymgeisydd mewnol ac allanol gyfle i lenwi ffurflen Monitro Amrywiaeth wrth gyflwyno'u cais, ond nid pob ymgeisydd sy'n dewis llenwi a chyflwyno ffurflen.

Derbyniodd y Comisiynydd 85 o Ffurflenni Monitro Amrywiaeth wedi'u llenwi wrth recriwtio yn ystod 2015-16.

**Nifer y ceisiadau am swyddi yn 2015-16 a gafwyd gan y grwpiau gwarchoddedig canlynol:**

<b>Oed</b>	
16-24	5
25-34	14
35-44	18
45-54	26
55-64	22
65 a throsodd	-
Dewis Peidio Dweud	-

<b>Rhyw</b>	
Gwryw	33
Benyw	52
Trawsrywiol G>M	-
Trawsrywiol M>G	-
Dewis Peidio Dweud	-

<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	
Deurywiol	-
Hoyw / Lesbiad	3
Heterorywiol	79
Arall	1
Dewis Peidio Dweud	2

<b>Crefydd neu Gred</b>	
Dim crefydd na chred	38
Cristion (pob enwad)	39
Bwdydd	1
Hindw	-
Iddew	-
Mwslim	1
Sikh	1
Unrhyw grefydd neu gred arall	1
Dewis peidio dweud	4

<b>Hil (yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl)</b>	
Gwyn: Sais/Saesnes	11

Gwyn: Albanwr/Albanes	1
Gwyn: Cymro/Cymraes	50
Gwyn: Gogledd Iwerddon	1
Gwyn: Prydeiniwr/wraig	13
Gwyn: Sipsi/Teithiwr Gwyddelig	-
Gwyn: Gwyddel/Gwyddeles	-
Gwyn: Arall	1
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn a Du'r Caribî	-
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn a Du Affrica	-
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn ac Asiaidd	-
Cefndir ethnig cymysg/lluosog arall	1
Asiaidd – Indiaidd	-
Asiaidd – Pacistani	-
Asiaidd – Bangladeshi	-
Asiaidd – Tsieineaidd	-
Asiaidd – Prydeiniwr/wraig	1
Cefndir Asiaidd Arall	1
Du – Caribiaidd	-
Du – Affricanaidd	3
Du – Prydeiniwr/wraig	1
Du – Arall (rhowch fanylion)	-
Grŵp ethnig arall (rhowch fanylion) Arab	-
Dewis peidio dweud	1

Anabledd	Oes	Na / Amh	Dewis Peidio Dweud
Oes gennych anabledd, yn eich tyb chi?	4	80	1

Ni chasglwyd data ynglŷn â beichiogrwydd a mamolaeth yng nghyswllt gweithgaredd recriwtio am 2015-16.

## **2. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am newid swydd o fewn yr awdurdod, gan nodi faint fu'n llwyddiannus yn eu cais a faint na fu'n llwyddiannus.**

Recriwtiodd y Comisiynydd i 3 swydd trwy ddulliau recriwtio mewnol yn ystod 2015-16, a'u llenwi.

Cafwyd un cais gan ymgeisydd mewnol am bob swydd. Roedd yr ymgeiswyr mewnol i gyd yn llwyddiannus.

Oherwydd maint y sefydliad, gan fod y ffigwr hwn yn cyfrif am lai na 10%, tynnwyd y manylion allan fel na ellir adnabod unigolion.



## Dysgu a Datblygu

### **1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a faint fu'n llwyddiannus yn eu cais.**

Mae'r Comisiynydd yn dal Gwobr Arian Buddsoddwyr mewn Pobl, ac, fel y dywedir ym Mholisi Dysgu a Datblygu'r Comisiynydd, ei nod yw bod yn sefydliad sy'n dysgu, a meithrin y sgiliau a'r wybodaeth y bydd ar staff eu hangen er mwyn llwyddo yn eu swyddi. Mae'r polisi hwn felly yn cefnogi diwylliant o ddysgu a datblygu staff rhagorol ar bob lefel.

Anogir pawb o'r staff i fanteisio ar gyfleon dysgu a datblygu sy'n berthnasol i'w swyddi a'u datblygiad personol. Bydd y Comisiynydd yn:

- darparu amgylchedd gweithio heriol, lle anogir staff i ddatblygu a magu sgiliau newydd a phrofiad.
- darparu amrediad o gyfleon datblygu i staff a fydd yn gyson ag anghenion strategol a gweithredol y Comisiynydd.<sup>†</sup>
- sicrhau y caiff pob aelod staff newydd ddealltwriaeth sylfaenol o rôl, swyddogaeth, polisiau a gweithdrefnau'r Comisiynydd wrth gael eu sefydlu yn eu swydd.
- asesu anghenion dysgu a datblygu'r Comisiynydd ac unigolion a llunio dadansoddiad anghenion hyfforddi a dysgu'r Comisiynydd.
- cynnal cynlluniau hyfforddi a datblygu unigol a chytuno arnynt gyda phob aelod staff fel rhan o'r broses gwerthuso perfformiad.
- adolygu cynlluniau unigolion a'r Comisiynydd o leiaf bob blwyddyn; asesu effeithiolrwydd ymyriadau hyfforddi a bwydo hynny'n ôl i gynlluniau wedyn.

Caiff pob aelod staff gyfle cyfartal i hyfforddi, a chymeradwyodd y Comisiynydd bob cais am weithgaredd Dysgu a Datblygu (hyfforddiant) yn ystod 2015-16.

### **2. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr a gwblhaodd yr hyfforddiant.**

Roedd y cyflogeion wedi mynychu ystod amrywiol o hyfforddiant, gan gynnwys pynciau cyffredinol fel rheoli prosiectau, hyfforddiant mewn sgiliau hwyluso a chyflwyno, ynghyd â hyfforddiant mwy penodol fel diogelu a dylanwadu ar ganlyniadau gwleidyddol. Cwblhawyd yr holl hyfforddiant a wnaethpwyd gan gyflogeion y Comisiynydd yn ystod 2015/16.

Mae'r cyflogeion i gyd yn cael hyfforddiant ar gydraddoldeb a nodweddion gwarchoddedig yn ystod blwyddyn gyntaf eu cyflogaeth fel rhan o'u rhaglen gynefino. Mae'n naturiol bod hyn yn cynnwys pwyslais arbennig ar oedran oherwydd natur y sefydliad.

Bu cyflogeion hefyd yn mynychu sesiynau hyfforddi mewnol ar ymwybyddiaeth o drawsrywioldeb ac oedraniaeth yn ystod 2015/16. Hefyd, bu'r Comisiynydd yn rhedeg ymgyrch gyhoeddus 'Dweud Na i Oedraniaeth' yn ystod 2015/16 gyda phob cyflogai'n cymryd rhan ac roedd hefyd yn cynnwys cyflwyno hyfforddiant ar oedraniaeth ledled Cymru.

Cafodd cyflogeion y Comisiynydd hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w rolau ar ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, profi dementia, iechyd meddwl yn y gweithle, trais domestig a cham-drin a rheoli ymddygiad heriol ac ymosodol.

Roedd y cyflogeion i gyd hefyd yn cael eu hannog i fod yn bresennol mewn digwyddiadau ymgysylltu â phobl hŷn sydd hefyd ag ystod o nodweddion gwarchoddedig.

## Trefniadau Cwyno

**1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr a fu'n ymwneud â threfn gwyno naill ai fel achwynwr neu fel rhywun y gwnaed cwyn yn ei erbyn.**

Ni fu neb o staff y Comisiynydd yn ymwneud â threfn gwyno naill ai fel achwynwr neu fel rhywun y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn ystod 2015-16.

## Trefniadau Disgyblu

**1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr fu'n destun trefniadau disgyblu.**

Nid fu dim un o gyflogeion y Comisiynydd yn destun camau disgyblu yn ystod 2015/16.

## Ymadawyr

**1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr a adawodd gyflogaeth yr awdurdod.**

Yn ystod 2015-16 ymadawodd 14 aelod staff â'u swyddi ar sefydliad y Comisiynydd.

Gan fod pob data ar gydraddoldeb staff yn ddiennw, does dim data penodol ar gael am nodweddion gwarchoddedig y staff hyn. Ond mae'r Comisiynydd yn dal gwybodaeth am oed a rhyw i ddibenion adnoddau dynol ynglŷn a'r staff penodol hyn, a dyma'r wybodaeth:

Oed	
16-24	-
25-34	4
35-44	6

45-54	2
55-64	2
65 a Hŷn	-
Dewis Peidio Dweud	-

<b>Rhyw</b>	
Gwryw	3
Benyw	11
Dewis Peidio Dweud	-

# Atodiad B: Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2016-17

Amcan	Arweinydd	Amserlen	Gweithredu / Dull o Fesur
<b>1. Sicrhau wrth gyflogi staff nad wyf yn gwahaniaethu yn erbyn neb, fy mod yn hybu cyfle cyfartal i bawb ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng aelodau o'r staff.</b>			
Byddaf yn ceisio cynyddu amrywiaeth fy ngweithlu	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Erbyn Rhagfyr 2016 ac yna'n flynyddol  Fel uchod	Adolygu arferion recriwtio er mwyn deall rhwystrau posibl, a sicrhau bod arferion recriwtio'n gynhwysol a'u bod yn ceisio denu ymgeiswyr ag amrediad ehangach o nodweddion gwarchoddedig.  Adolygu'r mathau o gcontractau a phatrymau gweithio er mwyn deall ac ymdrin â rhwystrau posibl gyda'r bwriad o ddenu a chadw ymgeiswyr ag amrediad ehangach o nodweddion gwarchoddedig.  Monitro, mesur ac adolygu ceisiadau am waith a llwyddiant ym mhob cam gyda'r bwriad o sicrhau cyfle teg i bob ymgeisydd.  Casglu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb sy'n ymwneud â chyflogaeth.
Bydd pob aelod o'r staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu a symud ymlaen er mwyn sicrhau bod pawb yn cael yn un cyfle i gyflawni ei botensial.	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Bob chwe mis	Adolygiadau rheoli perfformiad parhaus bob chwe mis er mwyn nodi a sefydlu cynlluniau priodol i gyflawni amcanion dysgu a datblygu.

Byddaf yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei wobrwyo a'i dalu ar y sail eu bod yn gyfartal beth bynnag eu nodweddion gwarchoddedig.	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Erbyn Rhagfyr 2016 a phan fydd swyddi newydd yn cael eu creu	Adolygu pob swydd er mwyn sicrhau bod pawb sy'n dal swydd yn cael ei werthuso'n wrthrychol ac yn deg ac yn derbyn tâl teg pa un a oes ganddo nodwedd warchoddedig ai peidio.
Byddaf yn sicrhau bod diwylliant yn fy sefydliad lle mae pob aelod o'r staff yn teimlo'n gyfforddus i fod yn agored ynglŷn â'i nodweddion gwarchoddedig ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi gennyf fi fel cyflogwr ac ar draws y sefydliad.	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Erbyn Medi 2016  Dau sesiwn ffurfiol y flwyddyn  Blynyddol ac yn unol â phob cynllun	Cynnal arolwg staff cyfrinachol bob blwyddyn er mwyn gofyn am farn pobl ac ystyried adlewyrchu'r farn hon ym mholisiau, gweithdrefnau ac amgylchedd gwaith y sefydliad.  Codi ymwybyddiaeth yn barhaus drwy sesiynau a hyfforddiant anffurfiol a ffurfiol, dosbarthu gwybodaeth a defnyddio delweddau cadarnhaol i hybu dealltwriaeth o nodweddion gwarchoddedig.  Sicrhau bod arferion da'n cael eu hadolygu a'u cymhwyso'n barhaus er mwyn hybu amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n hybu dysgu, datblygu a lles cyffredinol.
<b>2. Sicrhau bod fy mholisiau a'm harferion caffael a'r dogfennau tendro cysylltiedig yn cymryd yr angen i fodloni gofynion cydraddoldeb cyfreithiol i ystyriaeth.</b>			
Byddaf yn adolygu'n flynyddol fy holl bolisiau ac arferion caffael a'm holl ddogfennau tendro i sicrhau eu bod yn bodloni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Fel y nodwyd neu'n flynyddol	Sicrhau adolygiad priodol a chyfnodol o bob polisi perthnasol er mwyn adlewyrchu dyletswyddau statudol, arferion da a dysgu.
Byddaf yn sicrhau bod contractwyr yn gwbl ymwybodol	Cyfarwyddwr Materion	Parhaus	Sicrhau bod yr ymgysylltu'n parhau er mwyn ceisio cynrychioli'r amrywiaeth ehangach o bobl hŷn a

o'm dyletswyddau cydraddoldeb.	Corfforaethol	Parhaus	sicrhau fy mod wedi chwilio am grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, neu sy'n llai gweledol, ac wedi ymweld â hwy.  Sicrhau fy mod yn dal i godi ymwybyddiaeth o'm gwaith mewn grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig er mwyn annog ymgysylltu ehangach a mwy cynrychioladol.
<b>3. Sicrhau bod fy ngwaith yn berthnasol i bobl hŷn o bob math, a bod hynny i'w weld yn amlwg.</b>			
Byddaf yn ymgysylltu llawer mwy â phobl hŷn ar draws yr holl wahanol nodweddion gwarchoddedig.	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Parhaus	Sicrhau bod yr ymgysylltu'n parhau er mwyn ceisio cynrychioli'r amrywiaeth ehangach o bobl hŷn a sicrhau fy mod wedi chwilio am grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, neu sy'n llai gweledol, ac wedi ymweld â hwy.  Sicrhau fy mod yn dal i godi ymwybyddiaeth o'm gwaith mewn grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig er mwyn annog ymgysylltu ehangach a mwy cynrychioladol.
Sicrhau bod fy ngwaith yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl hŷn ar draws y sbectwm nodweddion gwarchoddedig yn ei ddweud wrthyf ynglŷn â beth sy'n bwysig iddyn nhw, a bod fy ngwaith yn tynnu sylw penodol at effeithiau ar y rhai sydd â gwahanol gyfuniadau o nodweddion gwarchoddedig.	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus	Sicrhau ymgynghori ac ymgysylltu ehangach â phobl ar draws y sbectwm nodweddion gwarchoddedig er mwyn rhoi ystyriaeth benodol i unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â chynhwysiant yn fy ngwaith.  Sicrhau bod cyhoeddiadau'n adlewyrchu ac yn cynrychioli'r materion a'r effeithiau y tynnir sylw atynt gan amrywiaeth o bobl hŷn, a bod modd cael gafael arnynt yn rhwydd ar ffurf electronig a chopi caled.



Byddaf yn cryfhau'r asesiad o effaith sy'n sail i'm gwaith er mwyn sicrhau bod fy ngwaith yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith nodweddion gwarchoddedig ar y canlyniad a geisir i bobl hŷn	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Erbyn Rhagfyr 2016 a pharhaus	Defnyddio offeryn newydd i asesu effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol a'i wneud yn rhan annatod o waith yr holl staff perthnasol er mwyn ceisio gwella ansawdd y gwaith rwy'n ei wneud ar ran pobl hŷn.
<b>4. Byddaf yn sicrhau bod fy ngwaith wedi'i seilio fwyfwy ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau a bod agenda sy'n canolbwyntio ar hawliau'n cael ei datblygu drwy Gymru gyfan.</b>			
Byddaf yn sicrhau bod staff yn cynnwys dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol yn eu gwaith.	Y ddau Gyfarwyddwr	Erbyn Medi 2016 a pharhaus	Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant craidd ar Oedraniaeth ac Egwyddorion y Cenedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a sicrhau bod staff yn cael cymorth i integreiddio'r rhain yn eu gwaith.
Byddaf yn hyrwyddo Egwyddorion y Cenedloedd Unedig ac ymwybyddiaeth o Oedraniaeth	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Erbyn Mawrth 2017 a pharhaus	Darparu hyfforddiant a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o Oedraniaeth ac Egwyddorion y Cenedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.  Hwyluso gweithdai hyfforddiant gydag Awdurdodau Lleol ar Asesiadau Effaith a Chanllawiau Craffu a fydd yn cynnwys Egwyddorion y Cenedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.
Byddaf yn gweithio gyda'r llywodraeth i hyrwyddo'r defnydd o egwyddorion y Cenedloedd Unedig a dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau wrth greu deddfwriaeth.	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Rhagfyr 2016	Llunio adroddiad a fydd yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru (2016 – 2021) a Llywodraeth newydd Cymru i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn amddiffyn ac yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn fel eu bod yn cael byw heb gael eu cam-drin na'u hesgeuluso, na dioddef oedraniaeth na gwahaniaethu, a'u bod yn cael cymryd rhan lawn yn eu cymunedau a chael ffynnu mewn henaint.

				Gweithio gydag arbenigwyr profiadol, pobl hŷn yn ogystal ag arbenigwyr academaidd ac ym maes deddfwriaethol i benderfynu ynghylch beth y gellid ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth arfaethedig a sut y byddai'n gweithio yn ymarferol.
<b>5. Grymuso ac arfogi pobl hŷn i herio'r gwahaniaethu y maent yn ei wynebu.</b>				
Byddaf yn arfogi pobl hŷn â'r wybodaeth a'r offer i'w grymuso i herio gwahaniaethu	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus	Parhaus	Byddwn yn gwneud pobl hŷn yn fwy ymwybodol o wahaniaethu drwy ddarparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ledled Cymru.  Bydd fy ngwefan yn dal i ddarparu templedi, gwybodaeth ddefnyddiol a phhecynnau cymorth eraill y gall pobl hŷn eu defnyddio i herio gwahaniaethu.
<b>6. Hybu darlun cywir a chytbwys o bobl hŷn yn eu holl amrywiaeth, gwella dealltwriaeth o bobl hŷn a'u hanghenion a herio stereoteipiau, yn fy sefydliad i ac mewn sefydliadau eraill.</b>				
Byddaf yn cynyddu dyfnder dealltwriaeth fy staff o amrywiaeth pobl hŷn a'r graddau y mae nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau a'u bywydau ehangach.	Y ddau Gyfarwyddwr	Erbyn Rhagfyr 2016 a pharhaus	Bob chwe mis	Dal i ddarparu sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth gan gynnwys yn fwyaf penodol Oedraniaeth ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a fydd yn cael eu hymgorffori yn nulliau gweithio fy staff.  Sicrhau bod adolygiadau rheoli perfformiad a gynhelir bob chwe mis yn adlewyrchu'r hyn a gyflawnwyd wrth ymgorffori materion cydraddoldeb yng ngwaith y staff a cheisio gwella o hyd.
Byddaf yn cynyddu dyfnder dealltwriaeth y prif wasanaethau cyhoeddus o amrywiaeth pobl hŷn a'r graddau y mae	Y ddau Gyfarwyddwr	Parhaus	Parhaus	Rhannu gwybodaeth a disgwyliadau sy'n ymwneud â phobl hŷn â chyrrff cyhoeddus ac asiantaethau allanol yn fy ngwaith o ddydd i ddydd, drwy ddarparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth,

nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau a'u bywydau ehangach.	Byddaf yn herio stereoteipiau a syniadau negyddol am bobl hŷn yn barhaus ac yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer newid.	Y ddau Gyfarwyddwr	Parhaus	drwy fy nghyhoeddiadau ac ar fy ngwefan.
Byddaf yn cryfhau ein trefniadau gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol er mwyn cryfhau lleisiau pobl hŷn a chynyddu effaith ein gwaith.	Ymgyrch 'Na i Oedraniaeth' ac Arwyr Bob Dydd. Yn fy ngwaith o ddydd i ddydd, codi ymwybyddiaeth gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n ceisio siarad llai am bobl hŷn fel grŵp unffurf a mwy am anghenion a dyheadau'r amrywiaeth o unigolion hŷn a sut y bydd y rhain yn cael eu diwallu.	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus Parhaus Parhaus	Ymgysylltu parhaus ac ehangach â sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol. Sicrhau bod ymatebion i unrhyw ymgynghoriadau ac ymchwiliadau perthnasol yn ceisio adeiladu ar eu sefyllfa bresennol. Bydd adolygiadau sylweddol o ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn ceisio cynnwys sefydliadau sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol fel cynghorwyr a chyfranwyr arbenigol.

<b>7. Annog a chefnogi cyrff cyhoeddus eraill i gydymffurfio â'u dyletswyddau eu hunain dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel y maent yn berthnasol i bobl hŷn a herio achosion difrifol o beidio â chyflawni dyletswyddau cyfreithiol.</b>			
Byddaf yn darparu canllawiau i gyrrff cyhoeddus sy'n gwneud newidiadau allweddol i'w gwasanaethau er mwyn eu helpu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol mewn cysylltiad ag ymgysylltu, asesu effaith a chymesuredd.	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus	Adolygu, cynnig adborth a darparu ymateb i ymgynghoriadau cyrff cyhoeddus eraill.
Byddaf yn sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu a newidiadau sydd â'r potensial i gael effaith niweidiol neu anghymesur sylweddol ar bobl hŷn yn cael eu hadolygu'n barhaus.	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus  Parhaus	Adolygu gwasanaethau cyhoeddus yn barhaus a darparu argymhellion cadarn er mwyn annog a hybu newid cadarnhaol.  Os bydd cyrff cyhoeddus yn gwrthod gweithredu fy argymhellion, heb reswm da, byddaf yn eu galw i gyfrif, gan ddefnyddio pŵerau cyfreithiol os oes angen.

# Atodiad C: Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Mabwysiadwyd Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig (Penderfyniad 46/91) ar 16 Rhagfyr 1991. Anogwyd llywodraethau i'w hymgorffori yn eu rhaglenni cenedlaethol lle bynnag y gellid. Mae 18 o egwyddorion, y gellir eu grwpio dan bum thema: annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunangyflawniad ac urddas.

## Annibyniaeth

1. Dylai pobl hŷn allu cael bwyd, dŵr, lloches, dillad a gofal iechyd digonol drwy ddarpariaeth incwm, cefnogaeth i deuluoedd a chymunedau, a hunangymorth.
2. Dylai pobl hŷn gael y cyfle i weithio neu allu cael cyfleon eraill i greu incwm.
3. Dylai pobl hŷn allu cael rhan mewn penderfynu pa bryd ac ar ba gyflymder y dylid cilio o'r gweithlu.
4. Dylai pobl hŷn allu cael mynediad i raglenni addysg a hyfforddiant priodol.
5. Dylai pobl hŷn allu byw mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac y gellir ei addasu yn ôl dewis personol a newid mewn gallu.
6. Dylai pobl hŷn allu byw gartref am gyhyd ag sy'n bosibl.

## Cyfranogiad

7. Dylai pobl hŷn barhau'n rhan o gymdeithas, cyfranogi o ddifri yn ffurfiant a gweithrediad polisïau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu lles a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau â chenedlaethau iau.
8. Dylai pobl hŷn allu ceisio a datblygu cyfleon i wasanaethu'r gymuned ac i wirfoddoli mewn swyddi priodol i'w diddordebau a'u galluoedd.
9. Dylai pobl hŷn allu ffurfio mudiadau neu gymdeithasau o bobl hŷn.

## Gofal

10. Dylai pobl hŷn gael budd gofal a gwarchodaeth yn y teulu a'r gymuned yn unol â system werthoedd diwylliannol pob cymdeithas.
11. Dylai pobl hŷn allu cael gofal iechyd i'w helpu i gadw neu adennill y lefel orau bosib o les corfforol, meddyliol ac emosiynol ac i atal neu oedi dyfodiad salwch.
12. Dylai pobl hŷn allu cael gwasanaethau cymdeithasol a chyfreithiol i hybu eu hannibyniaeth, eu gwarchodaeth a'u gofal.

13. Dylai pobl hŷn allu defnyddio lefelau priodol o ofal sefydliadol sy'n darparu gwarchodaeth, gwasanaeth ailsefydlu ac ysgogiad cymdeithasol a meddyliol mewn amgylchedd gwaraidd a diogel.
14. Dylai pobl hŷn allu mwynhau hawliau dynol a rhyddid sylfaenol pan fyddant yn byw mewn unrhyw sefydliad nawdd, gofal neu driniaethol, gan gynnwys parch llawn i'w hurddas, eu credoau, eu hanghenion a'u preifatrwydd ac i'r hawl i wneud penderfyniadau am eu gofal ac ansawdd eu bywyd.

### Hunangyflawniad

15. Dylai pobl hŷn allu dilyn cyfleon i ddatblygu eu potensial yn llawn.
16. Dylai pobl hŷn gael mynediad at adnoddau addysgol, diwylliannol, ysbrydol ac adloniannol cymdeithas.

### Urddas

17. Dylai pobl hŷn allu byw mewn urddas a diogelwch a pheidio â chael eu hecsbloetio na'u cam-drin yn gorfforol nac yn feddyliol.
18. Dylai pobl hŷn gael eu trin yn deg, beth bynnag fo'u hoed, eu rhyw, eu cefndir hiliol neu ethnig, eu hanabledd neu unrhyw statws arall, a chael eu gwerthfawrogi heb ystyried eu cyfraniad economaidd.

Gellir cael mwy o wybodaeth am Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yma: <http://www.un.org/documents/ga/res/46/a46r091.htm>



